

Gwasanaeth marcio â chymorth ar gyfer Profion Rhesymu Rhifiadol Blynyddoedd 2-9 2020 Hysbysiad Preifatrwydd

Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu?

Mae NFER yn darparu gwasanaeth marcio â chymorth ar gyfer Profion Rhesymu Rhifiadol Blynyddoedd 2-9 o dan is-gontract i Lywodraeth Cymru. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys sesiynau marcio ar gyfer ysgolion, digwyddiadau hyfforddi consortia a chymorth ar-lein ôl-ddigwyddiad ar gyfer ymarferwyr sy'n mynychu sesiynau. Mae NFER, fel rheolwr data, yn prosesu eich data personol i'w helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth a roddwch i ni?

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth marcio â chymorth yn unig.

Ni fyddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth a roddwch â thrydydd parti at ddibenion marchnata nac yn storio unrhyw ddata amdanoch y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei gadw'n ddiogel gan NFER a thrydydd parti arall p'un a yw'r wybodaeth ar ffurf electronig neu ar bapur.

Pa wybodaeth y gofynnwn amdani, a pham?

Rydym ni'n casglu ac yn prosesu eich manylion cyswllt, enw eich ysgol ac unrhyw ofynion arbennig (er enghraifft, gofynion dietegol neu fynediad). Mae hyn yn ein galluogi i roi manylion i chi am wasanaethau a mynediad i'r cymorth ar-lein ôl-ddigwyddiad, a sicrhau bod eich anghenion yn cael eu bodloni yn ein digwyddiadau.

Nid ydym yn casglu mwy o wybodaeth nag y bo'n angenrheidiol i gyflawni ein dibenion datganedig, ac ni fyddwn yn ei chadw am gyfnod hwy nag y bo'n angenrheidiol.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer gweithgareddau prosesu?

Ymdrinnir â'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol gan:

Erthygl 6 (1) (f) y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), sy'n datgan bod 'prosesu'n angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a geisir gan y rheolwr neu drydydd parti, heblaw pan fydd buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data'n drech na buddiant o'r fath, a fydd yn golygu bod angen diogelu'r data personol'.

Ein buddiant cyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol yw sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaeth marcio â chymorth, gan ein galluogi i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

Wrth roi gwybod i ni am unrhyw ofynion dietegol neu fynediad, neu unrhyw ofynion arbennig eraill, gallech rannu data categori arbennig â ni (er enghraifft, ynglŷn â'ch iechyd). Ymdrinnir â'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r math hwnnw o ddata gan Erthygl 9 (2) (a) y GDPR, sy'n datgan bod 'yr unigolyn wedi rhoi caniatâd i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.' Gofynnir am ganiatad wrth i chi ddarparu data arbennig.

Sut byddwn yn cael gafael ar ddata personol?

Byddwn yn derbyn y data personol yn uniongyrchol gennych chi trwy ein harolwg cofrestru ar-lein gan ddefnyddio'r offeryn arolwg Questback a thrwy ffurflenni cofrestru papur.

Gyda phwy fydd y data personol yn cael ei rannu?

Gweinyddir yr arolwg gan ein darparwr trydydd person, Questback.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth angenrheidiol â lleoliad y digwyddiad y byddwch chi'n ei fynychu.

A yw data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)?

Ni fydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei storio na'i brosesu y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Am ba mor hir y cedwir data personol?

Ni fydd data'n cael ei gadw am gyfnod hwy nag y bo'n angenrheidiol ac fe'i dilëir yn unol â pholisi mewnol NFER. Bydd yr holl gofnodion yn cael eu cadw am 6 mis ar ôl diwedd y prosiect y casglwyd y data ar ei gyfer.

Eich hawliau

Mae NFER yn trafod eich data personol yn unol â'r hawliau a roddir i unigolion o dan ddeddfwriaeth diogelu data;

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i:

- gael gwybod am unrhyw ddata personol sydd yn ein meddiant
- gael fynediad i'r data sydd yn ein meddiant
- ein gorfodi i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data
- (o dan amodau penodol) gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan amodau penodol) gofyn i'ch data gael ei 'dileu'
- (o dan amodau penodol) cludiant y data

A allaf atal fy nata personol rhag cael ei ddefnyddio?

Os byddwch eisiau i ni dynnu eich data yn ôl neu gywiro camgymeriadau ynddo ar unrhyw adeg, cysylltwch â Tom Kirkup ar WGSM@nfer.ac.uk.

Pwy allaf gysylltu ag ef ynglŷn â'r prosiect hwn?

Mae NFER yn gyfrifol am reoli'r prosiect hwn o ddydd i ddydd. Cysylltwch â Tom Kirkup ar WGSM@nfer.ac.uk os bydd gennych unrhyw ymholiadau. Am faterion yn ymwneud â diogelu data, cysylltwch â'n swyddog cydymffurfio ar compliance@nfer.ac.uk.

Os byddwch yn pryderu ynglŷn â'r ffordd y mae'r prosiect hwn yn prosesu data personol, gofynnwn i chi godi'r mater gyda ni yn y lle cyntaf (gweler uchod). Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y corff sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelu data yn y Deyrnas Unedig, ar <https://ico.org.uk/concerns/>.

Diweddaru

O bryd i'w gilydd bydd angen diweddaru'r wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nodir dyddiad diweddaru diwethaf yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn y troedyn ar waelod y ddogfen hon